

Cyfarfod:	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad:	21 Tachwedd 2019
Teitl:	Cefnogi busnesau Gwynedd i ymateb i Brexit
Awduron:	Dylan Griffiths, Rheolwr Rhaglenni Datblygu Economaidd Colin Morris, Rheolwr Rhaglenni Cefnogi Busnes Adran Economi a Chymuned
Aelod:	Cynghorydd Gareth Thomas Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut y mae'r Cyngor, a sefydliadau eraill, yn cynyddu ymwybyddiaeth busnesau o oblygiadau penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) ac yn eu cefnogi i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n deillio.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn ddiweddiariad ar eitem a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 22 Tachwedd 2018 (wele: [hyperddolen](#)).

2. Cefndir

- 2.1 Ar 23 Mehefin 2016 pleidleisiodd 51.9% o etholwyr y DU o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (roedd 58.1% o etholwyr Gwynedd o blaid aros yn yr Undeb).
- 2.2 Ar 29 Mawrth 2017 hysbysodd Llywodraeth San Steffan yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol o fwriad y DU i adael yr Undeb, gan gychwyn y drefn a nodir yn Erthygl 50 Cytuniad Lisbon.
- 2.3 Yn dilyn oedi ar dri achlysur, bellach rhagwelir y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020.

3. Goblygiadau Brexit i fusnesau Gwynedd

- 3.1 Gellir rhannu effaith tebygol Brexit ar fusnesau unigol - a'r economi yn ehangach – yn dwy ran:
 - yr ardrawiad uniongyrchol yn deillio o Brexit tymor byr / canolig; megis newid i'r trefn weinyddol o ran allforio, yr angen i weithwyr o'r Undeb Ewropeaidd gofrestru i aros yn y wlad, newid yng nghyflwr y farchnad o ganlyniad i tollau, ayyb; a'r,
 - ardrawiad anuniongyrchol fydd yn dilyn y tymor canolig / hir o ganlyniad i'r lleihad yn twf economaidd a ragwelir o ganlyniad i Brexit.

- 3.2 Mae gwaith y Cyngor i gefnogi busnesau Gwynedd yn ceisio rhoi sylw i effeithiau tymor byr a thymor hir Brexit ond, wrth reswm, mae prif sylw'r Cyngor ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau lesteirio ac ymdopi â'r effeithiau o Brexit yn y tymor byr.
- 3.3 Mae dadansoddiad cwmni Grant Thornton ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o effeithiau posib Brexit ar siroedd unigol yn ategu'r uchod gan awgrymu (wele: [hyperddolen](#)):
- mai'r sectorau amaeth, gweithgynhyrchu, adeiladu ceir, cyfanwerthu a manwerthu sydd yn wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i Brexit; a bod y sector amaeth yn flaenoriaeth arbennig i Wunedd o ganlyniad i'w faint yn y sir;
 - fod y gyfradd uwch o unigolion ar gyflogau is yng Ngwynedd yn wendid;
 - fod y nifer o drigolion yr Undeb Ewropeaidd yng Ngwynedd eisoes wedi lleihau ers y refferendwm yn 2016 (mae cyflogwyr wedi adrodd i ni fod hyn yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad yng ngwerth y bunt.

4. Ymateb y Cyngor i effeithiau uniongyrchol Brexit

4.1 *Derbyn adborth busnesau*

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd gyda busnesau'r sir i dderbyn eu hadborth ynglŷn â'u pryderon am Brexit.

Mae'r mater yn cael ei drafod yn rheolaidd yn Fforwm Busnes Gwynedd ynghyd ac yn fforymau megis y Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan (twristiaeth) a grŵp y sector gofal (dan arweiniad yr Adran Oedolion). Mae'r Adran hefyd yn trafod yn rheolaidd gyda'r Undebau Amaeth ac mewn cyswllt gyda phrif gyflogwyr y sir.

4.2 *Dylanwadu ar ran busnesau Gwynedd*

Mae'r Cyngor yn gweithio'n egniol yn unigol ac ar y cyd gydag eraill drwy law Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid anghenion busnesau Gwynedd ac economi'r sir yn ehangach.

Yn fwyaf diweddar mae'r Cyngor wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eu cynigion ar gyfer cefnogi'r sector amaeth wedi Brexit; ac mae swyddogion yr Adran yn aelodau rhagweithiol o nifer o grwpiau gwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n trafod yr hyn a ddymunir o ran rhaglenni olynol i arian Ewrop.

4.3 *Cynyddu ymwybyddiaeth busnesau lleol o oblygiadau Brexit a'r angen i weithredu*

Mae'r Cyngor yn/wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau i gynyddu ymwybyddiaeth busnesau lleol o oblygiadau Brexit a'r angen i weithredu.

Mae adran benodol wedi ei sefydlu ar wefan y Cyngor (wele: [hyperddolen](#)) sydd yn cyfeirio busnesau (a thrigolion) i ffynonellau o wybodaeth a chyngor ar oblygiadau Brexit.

Mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei raeadru a'i hyrwyddo drwy law cyfryngau cymdeithasol cefnogi busnes y Cyngor (twitter.com/busnesgwynedd) a drwy law newyddlenni Rhwydwaith Busnes Gwynedd. Mae'r Cyngor hefyd wedi/am fod yn rhyddhau datganiadau rheolaidd i'r wasg yn annog busnesau'r sir i ymgymryd â chamau ymarferol i baratoi ar gyfer Brexit.

4.4 Hyrwyddo a darparu cymorth i fusnesau addasu yn sgil Brexit

Mae'r Cyngor yn rhagweithiol yn hyrwyddo unrhyw gymorth sydd ar gael a allai helpu busnesau Gwynedd i addasu yn sgil Brexit er mwyn ceisio sicrhau fod cynifer a phosib yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael.

Mae Porthol Brexit Busnes Cymru yn rhoi'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf i fusnesau am ystod o faterion yn gysylltiedig â Brexit (wele: [hyperddolen](#)). Mae'r safle yn cynnwys teclyn diagnostig i helpu busnesau i adnabod pa mor dda y maent wedi paratoi ar gyfer Brexit gan argymhell camau y dylent eu cymryd i gynyddu pa mor wydn ydynt ac yn eu cyfeirio at ffynonellau cefnogaeth ychwanegol.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Cronfa Cydnherthedd Brexit' gwerth £6 miliwn sydd ar gael i fusnesau Cymru, i'w helpu nhw i addasu i'r newidiadau yn economi Cymru ar ôl Brexit (wele: [hyperddolen](#)). Mae'r £6 yn cynnwys £5 miliwn o fenthyciadau trwy law Banc Datblygu Cymru i gefnogi busnesau sydd am fuddsoddi i ddygymod â Brexit. Bydd cronfa grant cyfalaf o £1 miliwn, sy'n cael ei gweinyddu gan Fusnes Cymru, ar gael law yn llaw â benthyciad y Banc Datblygu.

Mae'r Cyngor bellach hefyd gyda phecyn cymorth ariannol all gefnogi busnesau i dargedu marchnadoedd newydd a chreu cyflogaeth. Mae'r pecyn 'Cymorth i Fentro' (wele: [hyperddolen](#)), yn gallu darparu cymorth ymarferol neu ariannol i helpu busnes oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag tyfu a chreu gwaith.

Mae Rhaglen Cyflogadwyedd yr Adran Economi a Chymuned wedi addasu ei weithgaredd i gefnogi busnesau Gwynedd i ymateb i Brexit. Drwy weithio gyda chyflogwyr mewn sectorau allweddol megis twristiaeth mae'r Rhaglen yn cefnogi trigolion lleol nad ydynt mewn gwaith i sicrhau'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau lleol.

5. Ymateb y Cyngor i ardrawiad hirdymor Brexit

- 5.1 Mae ardrawiad hirdymor Brexit llai sicr, fodd bynnag, mae consensws ymysg economegwyr y bydd yr economi yn tyfu yn llai cyflym yn y blynyddoedd i ddod o ganlyniad (mae Grant Thornton yn amcangyfrif y bydd Brexit 'meddal' yn arwain at ostyngiad o 1.1% yng Ngwerth

Ychwanegol Gros economi Gwynedd gyda Brexit 'caled' yn arwain at ostyngiad o 2%).

- 5.2 Mae bygythiad Brexit wedi annog y Cyngor i barau a dwysau ein hymdrechion i gefnogi'r economi lleol gan gefnogi sectorau mawrion o fewn yr economi i arloesi a chynyddu gwerth y gyflogaeth maent yn ei gynnig a chreu'r amodau cywir i helpu busnesau o fewn meysydd sydd yn cynnig swyddi'n talu'n dda i sefydlu a thyfu yng Ngwynedd.
- 5.3 I'r perwyl, yn ddiweddar mae'r Adran Economi Chymuned wedi ail-drefnu ei strwythurau gan ychwanegu cefnogi busnes i'w raglenni datblygu economaidd (sydd hefyd yn cynnwys datblygu gwledig, swyddi gwerth uwch a chyflogadwyedd) a sefydlu fîm unigol mewn ymateb i sefydlu'r Bwrdd Adfywio.
- 5.4 Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fod yn bartner egniol o fewn Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd gweithredu'r rhaglenni'r Bwrdd i gyflawni twf cynhwysol i ddatblygu'r economi hefyd yn allweddol bwysig yng nghefnogi busnesau i oresgyn effeithiau hirdymor gadael y farchnad sengl.

6. Camau Nesaf

- 6.1 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r sector preifat er mwyn cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau Brexit. Tybir y bydd y sefyllfa'n fwy eglur erbyn 31 o Ionawr 2020 a gan alluogi busnesau lleol gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- 6.2 Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn parhau â'r dasg o gefnogi ein busnesau i'r dyfodol.